


# Eglurhad Prydau Ysgol am Ddim

Mae cynllun Prydau Ysgol am Ddim Cynradd Cyffredinol yn cael ei gyflwyno **i bob grŵp blwyddyn**

**Ym mis Medi, mi fydd pob plentyn o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6, ledled Cymru, yn gallu cael Prydau Ysgol Gynradd Am Ddim Cyffredinol.**

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwysau cynyddol o ran costau byw ar deuluoedd, mynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd yn yr ysgol.

**A yw eich plentyn eisoes yn derbyn Cinio Ysgol Am Ddim?**

Os yw eich plentyn yn derbyn Cinio Ysgol Am Ddim ar hyn o bryd yn seiliedig ar eich amgylchiadau, efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael cymorth ychwanegol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n cynnwys cymorth ariannol ar gyfer gwisg ysgol, offer chwaraeon a dyfeisiau. I gael mynediad i gynllun eleni ewch i Grant Datblygu Disgyblion (PDG) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Felly, wrth i dymor yr haf agosáu, rydym yn annog rhieni i wneud cais am y cymorth y mae ganddynt hawl iddo.

A yw eich sefyllfa ariannol wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Os nad yw eich plentyn yn derbyn Cinio Ysgol am Ddim ar hyn o bryd, ond bod eich amgylchiadau wedi newid eleni, efallai y bydd cymorth ar gael yn Wrecsam i chi. I weld a ydych yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim, ewch i Cinio Ysgol Am Ddim | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Os ydych yn gymwys, efallai y byddwch hefyd yn gallu derbyn y Grant Datblygu Disgyblion.

Dywedodd y Cynghorydd Phil Wynn, Aelod Arweiniol dros Addysg: "Os ydych chi'n meddwl y gallech fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim, ewch i'n gwefan a gwnewch gais hyd yn oed os yw'ch plentyn yn y Dosbarth Derbyn hyd at flwyddyn 6 ac yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim i bawb.
• Os bydd eich cais yn llwyddiannus, efallai y byddwch hefyd yn gallu cael mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion, sy'n rhan bwysig o atal arian rhag ymyrryd ag addysg plant. Felly, os credwch y gallech fod yn gymwys, cysylltwch â ni i gefnogi rhieni a dysgwyr trwy gydol y flwyddyn ysgol."

**Plentyn yn dechrau ysgol? Bydd angen cyfrif Parent Pay arnoch**
Er mwyn i'ch plentyn gael pryd ysgol am ddim - Cinio Ysgol Rhad ac Am Ddim Cyffredinol neu Ginio Ysgol am Ddim yn seiliedig ar gymhwyster - bydd angen cyfrif arnoch ar wefan Parent Pay www.parentpay.com. Dyma sut y cewch chi un:
1. E-bostiwch schoolmeals@wrexham.gov.uk gydag enw llawn eich plentyn, dyddiad geni ac enw ei ysgol, a gofynnwch am god actifadu Parent Pay
2. Byddwch yn derbyn cod actifadu i gael eich cyfrif ar waith

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gymorth ariannol sydd ar gael i'ch plentyn tra bydd yn yr ysgol gallwch gysylltu â ni ar freeschoolmeals@wrexham.gov.uk.

Os yw'ch plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim, **bydd angen i chi archebu ymlaen llaw** ar Parent Pay hefyd. Mae hyn yn help mawr i ysgol eich plentyn oherwydd nid yw athrawon yn treulio amser yn cymryd archebion. Mae hefyd yn golygu bod eich plentyn yn cael ei ddewis cyntaf o bryd o fwyd ac yn ein helpu i leihau gwastraff. Unwaith y byddwch wedi'ch sefydlu ar Parent Pay, byddwch yn gallu archebu prydau eich plant hyd at bythefnos ymlaen llaw.